








# Mentrau Cydweithredol Cymunedol yng Nghymru

Pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru
CYLCHWYL 30 ANNIVERSARY

CENHEDLOEDD UNEDIG
BLWYDDYN RYNGWLADOL Y MENTRAU CYDWEITHREDOL
Rydym yn creu byd gwell
2012
UNITED NATIONS
INTERNATIONAL YEAR OF CO-OPERATIVES
We build a better world

**CYNNWYS**

01
**Cyflwyniad**

02
**Beth yw Menter Gydweithredol?**

04
**Mentrau Cydweithredol Cymunedol yng Nghymru**

06
**Buddion Economaidd**

10
**Buddion Amgylcheddol**

12
**Buddion Cymdeithasol**

18
**Mantais y Fenter Gydweithredol**

21
**Gallwch chi'i wneud e hefyd!**

Fe wnaed y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn, ac fe gafodd yr adroddiad ei hun ei ysgrifennu, gan Sefydliad Bevan. Mae Sefydliad Bevan yn elusen annibynnol ac yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio dros gyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

**Canolfan Cydweithredol Cymru**
Llys Llandaf, Heol y Tyllgoed, Caerdydd CF5 2XP
Ff: 0300 111 5050  E: info@walescooperative.org  G: www.walescooperative.org

@WalesCoOpCentre
www.facebook.com/WalesCooperativeCentre

# CYFLWYNIAD









Mae gan Gymru draddodiad hir a balch o fentrau cydweithredol ffyniannus. Sefydlwyd y fenter gyntaf yng nghanol y 19eg ganrif yn Ne Cymru a gwelwyd hwynt yn ffynnu yng nghymunedau glofaol cymoedd y De, mewn cymunedau glofaol a llechi'r Gogledd ac mewn trefi bychain yn y Canolbarth yn arbennig.

Rhoddai'r mentrau cydweithredol cynnar hyn gymorth o'r 'crud i'r bedd', o fwyd i wasanaethau trin gwallt, o wasanaethau angladdau i wasanaethau optegydd, teithio a bancio. Roeddent hyd yn oed yn cynnig tai i bobl mewn rhai ardaloedd, ynghyd â sinemâu ac adloniant arall ac addysg i gannoedd o oedolion. Roeddent yn darparu gwasanaethau ac roeddent hefyd yn rhan o'r ymdrechion i greu cymdeithas deg a da.

Ar ddechrau'r 1980au, ailddechreuwyd mentrau cydweithredol yng Nghymru pan geisiodd TUC Cymru ac eraill efelychu llwyddiant rhanbarth Mondragon yn Sbaen a mynd ati i liniaru effeithiau andwyol cau'r pyllau glo a'r dirwasgiad ar gymunedau drwy Gymru. Mae Canolfan Gydweithredol Cymru, a sefydlwyd ym 1982, wedi helpu cannoedd o fentrau cydweithredol, o fentrau cydweithredol y gweithwyr i fentrau cydweithredol amaethyddol, i ymsefydlu a ffynnu. Er 1999, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi creu mentrau cydweithredol a mentrau cymdeithasol eraill.

Heddiw, wrth i Gymru ymrafael â dirwasgiad newydd a newid economaidd, mae sector cydweithredol sy'n ffynnu yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen i'w lles tymor hir. Gwelir bod mentrau cydweithredol yn fwy cadarn a sefydlog mewn hinsawdd economaidd anodd na busnesau eraill wrth ddarparu gwaith o ansawdd uchel, yn enwedig felly i'r rhai a fyddai wedi'u heithrio o'r farchnad lafur fel arall, ac i gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Bydd Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru, a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2012, yn nodi'r hyn y dylid ei wneud i'w cefnogi nhw.

Mae gan fentrau cydweithredol swyddogaeth hollbwysig yng Nghymru. Ynghyd â darparu swyddi mae'u hangen ar Gymru'n ddirfawr a chadw incwm yn lleol, gall mentrau cydweithredol ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl hefyd. Nid oes gan lawer o gymunedau Cymru, yn gymunedau trefol neu wledig, siop neu dafarn leol a cheir diffyg gofal plant, cyfleoedd dysgu a chyfleusterau cymunedol yn lleol. Ar yr un pryd, mae prinder swyddi dybryd yn broblem enfawr mewn sawl cymuned.

Serch hynny, yr hyn sydd gan y mwyafrif llethol o gymunedau yng Nghymru yw pwrpas cyffredin ac ysbryd cymunedol – dyma'r hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw. Mae model y fenter gydweithredol yn ffordd ddelfrydol o ddefnyddio'r egni hwnnw ac ymrwymo i fodloni anghenion y gymuned.

# BETH YW MENTER GYDWEITHREDOL?

**Perchnogaeth**
**Perchnogaeth gan aelodau'r gymuned y ac wedi'u rheoli ganddyn nhw**

**Penodol**
**Darparu gwasanaethau i gymuned ddaearyddol benodol**

**Adnabod**
**Adnabod ei hun fel menter gydweithredol gymunedol**

Mae mentrau cydweithredol yn fusnesau sy'n darparu gwasanaeth neu wasanaethau i gymdogaeth, pentref neu dref benodol ac maent wedi mabwysiadu'r saith egwyddor a'r gwerthoedd cydweithredol sy'n arwain eu gweithgareddau. Yn eu plith mae'r egwyddor mai eu haelodau sy'n berchen arnynt a'u bod yn atebol i'w haelodau.

Gall menter gydweithredol gymunedol fod yn sawl endid cyfreithiol gwahanol, gan gynnwys Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus, cwmni a gyfyngir gan warant, Cwmni Buddiannau Cymunedol neu gall fod yn anghorfforedig.

Nid peth hawdd yw diffinio menter gydweithredol gymunedol.

Mae rhai mentrau cydweithredol yn darparu nwyddau neu wasanaethau i'r gymuned ond eu gweithwyr sy'n berchen arnynt yn hytrach na'r gymuned ehangach (h.y. mentrau cydweithredol y gweithwyr ydynt). Mae eraill yn cael eu perchen gan bobl neu sefydliadau er mwyn gwerthu'u cynnyrch i'r gymuned (h.y. mentrau cydweithredol y cynhyrchwyr ydynt).

Mae rhai mentrau cydweithredol yn darparu gwasanaethau i bobl yn y gymuned ond dim ond aelodau'r fenter gydweithredol all gael y gwasanaeth hwnnw. Mae clybiau gweithwyr, mentrau cydweithredol tai, mentrau cydweithredol prynu olew tanwydd, undebau credyd a rhai cydweithfeydd bwyd yn enghreifftiau o'r rhain.

Mae rhai mentrau cydweithredol wedi mynd ymhellach na mabwysiadu'r saith egwyddor, mae eu haelodau'n perthyn i'r gymuned leol ac maent yn darparu gwasanaethau i'r gymuned ehangach. Serch hynny, nid ydynt yn eu hystyried eu hunain yn fentrau cydweithredol cymunedol!

Mentrau Cydweithredol Cymunedol:

+ Dan berchnogaeth a rheolaeth aelodau'r gymuned
+ Yn darparu gwasanaethau i gymuned ddaearyddol benodol






SAITH
SEREN




OUR SHOP
SIOP Y - BOBL
CROESO

# MENTRAU CYDWEITHREDOL CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

**100**

**Mae dros o fentrau cydweithredol cymunedol yng Nghymru ac maent yn amrywio o ran eu maint a'r sectorau maent yn eu cynrychioli**

**2,000**

**Mae gan Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam sy'n berchen ar Glwb Pêl-droed Wrecsam dros 2,000 o aelodau**

**20-30**

**Mae Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy newydd ddechrau ac mae ganddo 20-30 o aelodau**

Ceir dros gant o fentrau cydweithredol yng Nghymru ac maent yn amrywio o ran eu maint, y sectorau maent yn eu cynrychioli ac maent i'w cael yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru.

Mae rhai mentrau cydweithredol wedi hen ennill eu plwyf, rai ohonynt ers oddeutu 25 mlynedd ac megis dechrau mae eraill.

Mae rhai mentrau cydweithredol cymunedol yn gymharol fawr, e.e. Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam sy'n berchen ar Glwb Pêl-droed Wrecsam ac sydd â dros ddwy fil o aelodau. Mae eraill yn gymharol fach, megis Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy, menter gydweithredol datblygu cymunedol sydd newydd ddechrau ac sydd â 20-30 o aelodau.

Ceir mentrau cydweithredol cymunedol yn y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru, mewn ardaloedd gwledig a dinesig, ac maent yn darparu ystod eang o wasanaethau er budd eu cymunedau lleol;

| | |
|---|---|
| Siopau pentref | Cydweithfeydd bwyd |
| Gofal plant | Hyfforddiant ac addysg |
| Tafarndai, caffis a bwytai | Gweithgareddau awyr agored |
| Canolfannau cymunedol | Chwaraeon |
| Ynni adnewyddadwy | Adnewyddu adeiladau |

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi canlyniadau arolwg o 23 o fentrau cydweithredol cymunedol a gynhaliwyd drwy holiadur wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar-lein neu drwy'r post.

Mae ein hymchwil yn dangos bod mentrau cydweithredol cymunedol yn sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'w cymunedau ac i Gymru gyfan, gan eu bod yn dod â phobl ynghyd sydd wedi ymrwymo i'w cymunedau er mwyn darparu gwasanaethau y mae eu hangen a'u heisiau ar y cymunedau hynny.

Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn sicrhau'r gorau o'r ddau fyd. Maent hefyd yn glynu wrth werthoedd cymdeithasol, masnachu teg a chyfrifoldeb dros les pawb.







## Astudiaeth Achos Ryngwladol – Menter Gydweithredol Ilígora

**Sefydlwyd:** 2005

**Cyflogi:** 100 o bobl

Lleolir menter gydweithredol Ilígora ym Montora, tref sydd ag oddeutu 10,000 o drigolion yn nhalaith Córdoba, Sbaen. Fe'i crëwyd yn 2005 ac mae bellach yn cyflogi oddeutu 100 o bobl yn y dref.

Dechreuodd y fenter gydweithredol ym Mhreswylfa Jesús Nazareno. Roeddent yn darparu gwasanaethau ysbyty, mamolaeth a gwasanaethau iechyd eraill i'r gymuned. Yn 2008, dechreuodd y fenter gydweithredol ddarparu gwasanaethau gofal cartref ar ran yr awdurdod lleol. Mewn cwta wyth mlynedd, mae Ilígora wedi cynyddu nifer eu canolfannau gofal i bedair. Maent bellach yn darparu gwasanaethau glanhau i wahanol gyrff trefol eraill hefyd.

Yr hyn sydd wrth wraidd gweithgareddau'r fenter gydweithredol yw hyfforddi'i weithwyr, gan roi arweiniad proffesiynol ym meysydd gofal cymdeithasol a nyrsio geriatrig.

O ran y dyfodol, maent yn gweithio â menter gydweithredol arall i gynhyrchu bwyd ac, yn y tymor hir, bwriad y Fenter Gydweithredol yw creu grŵp cydweithiol ar y cyd â mentrau eraill i adfywio economi talaith Córdoba.

# BUDDION ECONOMAIDD

Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn fusnesau. Er bod sawl un yn cael cymorth ariannol i gychwyn ar bethau a thyfu, yn debyg i fusnesau prif ffrwd, rhaid iddynt o leiaf adennill eu costau ac yn ddelfrydol, dylent fod yn gwneud elw os ydynt am oroesi yn y tymor canolig a hir.

## Creu Swyddi a Chyfleoedd

Mae sawl menter gydweithredol gymunedol yn cyflogi pobl. Yn nodweddiadol, nid ydynt yn cyflogi llawer o bobl ar y cyfan. Serch hynny, mewn cymunedau bychain, sy'n aml yn ddifreintiedig, mae pob swydd yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Lleolir menter gydweithredol **Pyllau Glyncorrwg** yn Nyffryn Aman Uchaf, Castell-nedd Port Talbot. Roedd yn cyflogi 7 o bobl yn uniongyrchol a 23 o bobl yn anuniongyrchol ar 1 Medi, 2012, a hynny mewn cymuned sydd â thua threian o'i phobl o oedran gweithio yn hawlio budd-dal diweithdra.

Ar hyn o bryd, mae **Deudraeth Cyf** yn cyflogi 6 o bobl ym Mhenrhyndeudraeth, Gwynedd. Yno, mae llai na hanner y bobl o oedran gweithio mewn gwaith amser llawn ac nid oes llawer o gyfleoedd i gael gwaith yn yr ardal gyfagos.

Nid swyddi â chyflog yw'r unig beth pwysig. Mae bron i bob menter gydweithredol gymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Gall y gwirfoddolwyr hyn gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau, o roi cymorth yn achlysurol i bobl y dibynnir arnynt i ddarparu gwasanaethau. Drwy wirfoddoli, gall pobl gael profiad gwerthfawr o'r gweithle, gallant ddatblygu'u hunanhyder a chael sgiliau newydd. Gwelwyd mewn arolwg o 156 o bobl a oedd yn gwirfoddoli mewn cydweithfeydd bwyd[1] bod 81% yn teimlo eu bod wedi datblygu'u rhinweddau personol, e.e. magu hyder. Yn ogystal â hynny, credai 68% eu bod wedi gwella'u sgiliau a'u C.V. Mae hwn yn gryn gyflawniad gan i'r rhan fwyaf o wirfoddolwyr ddechrau ymwneud â chydweithfeydd bwyd i helpu'r gymuned ac nid eu hunain.

Mae helpu pobl i ddod o hyd i waith yn rhan o'r busnes mewn rhai mentrau cydweithredol cymunedol, a hynny gan eu bod yn darparu ystod o gyrsiau addysgol a hyfforddi. Mae rhoi addysg a hyfforddiant yn y gymuned yn golygu bod y ddarpariaeth yn agos at y bobl, ac mae hynny'n arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn dda yn aml iawn.

Mae gan **Deudraeth Cyf** ystafell hyfforddi ac mae ar hyn o bryd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau TG ym Mhenrhyndeudraeth ac mewn mannau eraill yng Ngwynedd. Dros y blynyddoedd, mae'r fenter gydweithredol wedi hyfforddi 5,000 o bobl mewn amrywiaeth o sgiliau, gan wella'u sgiliau i'r gweithle mewn sawl achos. Mae'r coleg agosaf i Benrhyndeudraeth dros awr i ffwrdd mewn bws, neu 35 munud i ffwrdd mewn trên sy'n rhedeg bob dwy awr, felly mae darparu hyfforddiant yn y gymuned yn hollbwysig.





## Denu Incwm a'i Gadw yn yr Ardal

Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn cefnogi'r economi lleol, e.e. drwy ddenu incwm i'r ardal drwy ddod ag ymwelwyr yno. Er y gall incwm ac effaith y mentrau cydweithredol cymunedol fod yn gymharol fach, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr serch hynny mewn ardaloedd sydd wedi colli'r rhan fwyaf o'u sylfaen economaidd, boed hynny'n economi glofaol neu amaethyddol.

Mae **Menter Gydweithredol Gymunedol Pyllau Glyncorrwg** wedi datblygu dyffryn afon drwy gerflunio gwastraff glo o'r lofa leol a chreu cyfres o byllau. Maent wedi sefydlu clwb pysgota er mwyn i bobl bysgota'r pyllau a cheir canolfan ymwelwyr ar dir cyfagos a oedd gynt yn safle gwastraff glofaol. Mae cyfres o lwybrau beicio mynydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â rhaglen Cydcoed (sy'n rhan o'r Comisiwn Coedwigaeth). Mae gan y llwybrau beicio mynydd enw da yn rhyngwladol ac maent ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig. Maent yn denu 20,000 o ymwelwyr yn 2011. Mae'r caffi Skyline Planet yn y Ganolfan Ymwelwyr wedi ennill enw da am weini bwyd o safon uchel ac am ei staff cyfeillgar. Mae busnesau gwely a brecwast a bythynnod gwyliau wedi'u creu yn yr ardal i ddiwallu anghenion beicwyr mynydd brwd.

Mae mentrau cydweithredol cymunedol eraill yn helpu i gadw incwm a'i gylchredeg o fewn y gymuned. Nhw eu hunain yn aml sy'n prynu nwyddau a gwasanaethau lleol ac felly maent yn cefnogi busnesau lleol.

Mae **Siop Bentref Pen-hŵ**, ym Mhen-hŵ, Cas-gwent, Sir Fynwy, yn cael gafael ar nwyddau a gynhyrchir yn lleol lle bo hynny'n bosib. Maent yn prynu wyau maes, llaeth a bara o ardaloedd Caerdydd a Chasnewydd, cacennau o Raglan, cyffeithiau o Langwm, menyn o Lydney a chardiau cyfarch o Frynbuga hyd yn oed.

Mae mentrau cydweithredol cymunedol hefyd yn sicrhau bod incwm y cartref yn cael ei gadw, wrth i bobl wario'u harian yn y gymuned yn hytrach a theithio i'r trefi a'r dinasoedd mawr. Felly, mae'n golygu nad yw incwm mae'i angen yn fawr ar yr ardal yn gadael yr ardal.

Mae **Marchnadoedd Gwledig Sir Gaerfyrddin Cyf** yn gwerthu cynnyrch lleol o ansawdd uchel i bobl Caerfyrddin, Llanymddyfri a Llandeilo. Mae hefyd yn sicrhau marchnad i gynhyrchwyr bwyd a chrefftwyr lleol, gan roi incwm iddynt.

Er mai dim ond rhan fach o drosiant cyflenwyr mawr yw'r hyn maent yn ei werthu i gydweithfeydd bwyd, gwelodd gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r rhaglen cydweithfeydd bwyd cymunedol[2] fod gwerthiant rhai cyflenwyr yn 10% o'u busnes ac roedd nifer bychan o'r cyflenwyr yn cynnal llawer iawn o'u busnes â chydweithfeydd bwyd. Yn ogystal â hynny, dywedodd cyflenwyr bod manteision i'w cael o ran llif arian a hysbysebu drwy gyflenwi i gydweithfeydd bwyds.

**Gwelwyd mewn arolwg o 156 o bobl a oedd yn gwirfoddoli mewn cydweithfeydd bwyd bod:**

**81%**

**81% yn teimlo eu bod wedi elwa o ddysgu rhywbeth newydd**

**68%**

**Credai 68% eu bod wedi gwella'u sgiliau a'u CV**

[1] BMG Research (2012) **Gwerthusiad o'r Rhaglen Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol yng Nghymru**, Caerdydd: Llywodraeth Cymru

[2] BMG Research (2012) op. cit.






## Siop y Bobl, Llanmadog, Penrhyn Gŵyr

**Sefydlwyd:** 2007

**Busnes:** Siop Gymunedol

**Nifer yr aelodau:** Dros 200

**Trosiant:** £75,000

Sefydlwyd Siop y Bobl, Llanmadog yn 2007 i fodloni anghenion cymuned Gogledd Gŵyr. Ar ôl i'w siop ddiflannu'n llythrennol dros nos, daeth y gymuned at ei gilydd i greu'r fenter gydweithredol gymunedol, Siop y Bobl.

Mae bellach yn darparu ystod eang o gynhyrchion, megis nwyddau ffres, cacennau cartref, bwydydd oer, mae ganddynt drwydded i werthu alcohol ac mae yno swyddfa'r post a siop goffi. Maent yn prynu'u cynnyrch a'u nwyddau oddi wrth gynhyrchwyr neu gyflenwyr lleol, gan eu helpu nhw i barhau mewn busnes a chadw incwm yn yr ardal.

Mae Siop y Bobl wedi ennill sawl gwobr, gan gynnwys Gwobr Gwirfoddolwyr Cymru, Gwobr Busnes Newydd Gorau, Pentref Gorau yn Ne Cymru a Chymuned Orau yng Nghymru. Mae'r aelodau yn dweud mai'r hyn sydd i gyfrif am eu llwyddiant yn rhannol yw'r cyngor a roddwyd iddynt gan y mudiad mentrau cydweithredol ac, yn ogystal â hyn, maent wedi cael rhywfaint o gyllid i'w helpu nhw i ddechrau arni a rhedeg y fenter gydweithredol. Gall unrhyw un yn yr ardal fod yn aelod – hebddynt hwy, ni fyddai Siop y Bobl yn bod.

Un o fanteision mwyaf y fenter gydweithredol yw ei gwirfoddolwyr ac mae llawer ohonynt wedi ymddeol. Mae'r siop yn ganolbwynt i'r gymuned lle gall pobl gwrdd bob dydd, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pen eu hunain heb weld neb arall.

Mae Siop y Bobl wedi cael sawl her dros y blynyddoedd, yn enwedig felly gyda'r safle presennol. Fodd bynnag, maent yn bwriadu symud i adeilad newydd erbyn mis Rhagfyr 2012 a fydd yn well lleoliad a lle bydd y costau rhedeg yn is.

Mae Siop y Bobl yn credu'n gryf bod arddel egwyddorion cydweithredol wedi galluogi "cymuned wledig a oedd yn marw ar ei thraed" i ffynnu.

# BUDDION AMGYLCHEDDOL

## Buddion

**Mae Mentrau Cydweithredol Cymunedol yn sicrhau buddion amgylcheddol er nad dyma eu prif amcanion**

## Milltiroedd bwyd

**Mae cydweithfeydd bwyd cymunedol yn lleihau milltiroedd bwyd ac yn lleihau'r pecynnu sy'n cael ei ddefnyddio**

Mae rhai mentrau cydweithredol cymunedol wedi'u sefydlu i gyflawni nodau amgylcheddol clir, e.e. creu ynni adnewyddadwy, hyrwyddo ffermio organig neu leihau'r sbwriel sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Maent yn sicrhau buddion i'r amgylchedd lleol ac i'r gymuned leol.

Mae **Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian** (CARE) yn datblygu'r gallu i greu ynni adnewyddadwy yng nghymunedau Hermon, Y Glog a Llanfyrnach, Sir Benfro. Y brif fantais fydd creu llif incwm o'r ynni a fydd yn cael ei werthu i'r grid cenedlaethol. Bydd 40% o'r incwm yn cael ei ddefnyddio i gynyddu effeithlonrwydd ynni a gallu cartrefi lleol i gynhyrchu ynni. Bydd 20% yn cael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau mewn mentrau cymdeithasol carbon isel ac mewn technoleg adnewyddadwy a bydd y gweddill yn cael ei ddefnyddio i leihau ôl troed carbon y gymuned drwy ffyrdd eraill.

Mae mentrau cydweithredol cymunedol eraill yn sicrhau buddion amgylcheddol er nad hynny yw eu prif amcan. Er enghraifft, mae siopau cydweithredol cymunedol yn lleihau nifer y teithiau car a wneir i siopau sydd ymhellach i ffwrdd, ac mae cydweithfeydd bwyd yn lleihau milltiroedd bwyd, yn lleihau'r pecynnu sy'n cael ei ddefnyddio a'i daflu ac yn annog pobl i beidio â gwastraffu bwyd.

Mae **Cydweithfa Fwyd Dyserth** yn Sir Ddinbych wedi lleihau'r pellter mae bwyd yn ei deithio o'r cae i'r geg, gan eu bod yn defnyddio cyflenwr lleol ym Mhenarlâg, sydd 20 milltir i ffwrdd, ac maent yn gwerthu cynnyrch a dyfir yn lleol pan fo yn ei dymor. Nid oes rhaid i bobl deithio yn eu ceir i brynu ffrwythau a llysiau ffres mwyach. Yn ogystal â hynny, nid yw'r fenter gydweithredol yn defnyddio llawer o ddeunyddiau pecynnu.

Mae **4CG** yng Ngheredigion eisoes wedi prynu tair siop, dau warws a meysydd parcio ynghyd â dwy swyddfa a thŷ ym Mhwllhai, sydd yn ardal Aberteifi. Mae'r safleoedd wedi'u hailddatblygu i greu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys canolfan i blant, marchnad a meysydd parcio rhad. Mae 4CG ar hyn o bryd yn codi arian i brynu hen orsaf yr heddlu a'r hen lys i'w troi'n swyddfeydd cymunedol a hostel o bosib. Y nod yw codi £250,000 drwy gyfranddaliadau cymunedol. Llwyddwyd i godi £220,000 mewn cwta fis o'r cynnig gwreiddiol.







## Astudiaeth Achos Ryngwladol – Evergreen Cooperatives, Cleveland, Ohio, UDA

Lansiwyd menter Evergreen Co-operative yn 2008 gan sawl sefydliad a leolwyd yn Cleveland, Ohio i greu "cyfoeth cymunedol" drwy greu swyddi cyflog byw mewn chwe chymuned incwm isel a difreintiedig.

Mae'r fenter yn cryfhau'r economi lleol o'r gwaelod i fyny yn hytrach na dibynnu ar gyfoeth yn treiddio o lefydd eraill neu gynnig grantiau'r llywodraeth i gwmnïau er mwyn iddynt ymsefydlu yn yr ardal. Mae'n cynyddu perchnogaeth dros asedau, mae'n cadw swyddi a chyfoeth yn yr ardal, mae'n sicrhau sefydlogrwydd economaidd ac mae'n cryfhau'r sylfaen drethi.

Mae dull Evergreen o weithio yn seiliedig ar ddenu peth o wariant sefydliadau lleol (sy'n $3 biliwn) a'i fuddsoddi yn yr ardal, gan greu rhwydwaith o fentrau cydweithredol cymunedol i fodloni anghenion lleol ac anghenion y sefydliadau a sicrhau swyddi sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Yn ganolog i hyn oll yw ehangu sectorau o'r economi a chynyddu'r busnesau cydweithredol.

Nod y fenter yw helpu i greu 10 menter cydweithredol newydd sy'n cyflogi 500 o bobl yn y tymor canolig. Heddiw, mae mentrau cydweithredol Evergreen yn cynnwys:

+ Golchdy Cydweithreol Evergreen
+ Datrysiadau Ynni Evergreen
+ Green City Growers

Bydd y mentrau cydweithredol a sefydlir yn rhoi 10% o'u helw tuag at Fenter Gydweithredol Evergreen i'w ail-fuddsoddi er mwyn creu mentrau cydweithredol newydd.

# BUDDION CYMDEITHASOL

## hanfodol

**Mae'r gwasanaethau y mae cydweithredol cymunedol yn eu darparu yn hanfodol i'r gymuned**

## Dechrau arni

**Cynigiodd Menter Gydweithredol Gymunedol Gwynfi unedau a roddai gyfle i sawl busnes lleol ddechrau arni**

Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn dda iawn am sicrhau buddion i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu, boed hynny drwy adfer hen adeiladau a'u defnyddio unwaith yn rhagor, darparu gwasanaethau hollbwysig neu ddod â phawb at ei gilydd ac atgyfnerthu'r gymuned. Mae'n amlwg bod gan fentrau cydweithredol swyddogaeth hollbwysig yng nghyd-destun cydlyniant cymdeithasol drwy Gymru.

### Darparu Gwasanaethau Hollbwysig

Mae gan nifer o fentrau cydweithredol cymunedol eu gwreiddiau mewn darparu gwasanaethau a chyfleusterau hollbwysig a'r hyn sy'n eu hysgogi'n aml iawn yw'r bygythiad i ddyfodol siop, tafarn neu ganolfan gymunedol.

Caeodd tafarn y **Saith Seren/Seven Stars** yn Wrecsam ei drysau yn 2011 ac roedd yn wag am sawl mis. Mae menter gydweithredol wedi prynu'r adeilad, maent wedi'i adfer ac maent wedi sefydlu canolfan Gymraeg yno sy'n cynnig gwersi Cymraeg, ystafelloedd cyfarfod i'w llogi a thafarn, wrth gwrs, sy'n cynnal amrywiaeth o berfformiadau diwylliannol Cymraeg.

Mae'r gwasanaethau mae mentrau cydweithredol cymunedol yn eu darparu'n hanfodol i'r gymuned, yn enwedig i bobl hŷn neu bobl sydd heb gar sy'n byw mewn mannau anghysbell nad ydynt yn gallu teithio i gael gwasanaethau mewn mannau eraill.

Daeth **Menter Gydweithredol Gymunedol Gwynfi Cyf**, a leolir ym Mlaengwynfi, Castell-nedd Port Talbot, i redeg archfarchnad leol ar ddechrau'r 1980au pan oedd ar fin cau. Roedd prinder siopau bwyd eraill yn yr ardal eisoes yn broblem ac mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ers hynny, a hynny mewn ardal lle nad oes gan bron i hanner y boblogaeth gar. Mae'r fenter gydweithredol yn cynnig ystod eang o nwyddau ffres a nwyddau wedi'u pecynnu. Hebddynt hwy, byddai "bwlch anferth" yn y gymuned. Yn ogystal â hynny, cynigiodd y fenter gydweithredol unedau a roddai gyfle i sawl busnes lleol ddechrau arni ac mae nifer ohonynt yn dal i fynd. Yn fwy diweddar, mae'r unedau hyn wedi'u troi'n chwe fflat i'w rhentu o ansawdd uchel.

Ymhlith y gwasanaethau eraill mae mentrau cydweithredol yn eu darparu mae gofal plant (e.e. yn y Ganolfan Oasis, Abermaw), cyfleusterau cymunedol (megis Caban Cyf.) ac ynni (fel y bwriada Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian ei ddatblygu).







## Cydweithfa Ffrwythau a Llysiau Cyfarthfa, Merthyr Tudful

**Sefydlwyd:** 2011

**Busnes:** Cydweithfa Ffrwythau a Llysiau

**Nifer yr aelodau:** 80 o gwsmeriaid

**Trosiant:** £2,400-£3,600

Sefydlwyd Cydweithfa Ffrwythau a Llysiau Cyfarthfa i ddarparu ffrwythau a llysiau ffres i gwsmeriaid yn ardal Merthyr. Ar hyn o bryd, mae gan y gydweithfa dros 80 o gwsmeriaid a dosbarthwyd 2,400 o fagiau a 1,500 o wyau yn ei blwyddyn gyntaf. Mae nifer o adeiladau cymunedol ym Merthyr yn gweithredu fel mannau casglu i'r ffrwythau a'r llysiau ac mae cynlluniau ar y gweill i gynnig gwasanaethau cludo yn y dyfodol i bobl nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi neu'n gallu casglu'r bagiau eu hunain.

Sefydlwyd cydweithfa ffrwythau a llysiau am y tro cyntaf yn 2006, pan gaeodd y siop ffrwythau a llysiau leol ac roedd yn rhaid i bobl fynd ar y bws i'r dref i gael cynnyrch ffres. Yr hyn a ddysgwyd oedd bod ansawdd, amrywiaeth a phris yn bwysig iawn i bobl yr ardal a sefydlwyd cydweithfa newydd a oedd am fynd i'r afael â'r materion hyn yn 2011.

Mae'r gydweithfa newydd wedi cael cymorth gan fudiadau eraill, e.e. maent wedi benthyca cerbydau i gasglu bwyd, maent wedi rhoi bagiau bwyd a chloriannau ac adeiladau er mwyn iddynt ddosbarthu'r bwyd.

Mae'r gydweithfa wedi bod o fudd mawr i'r gymuned. Mae'r bobl yno bellach yn cael ffrwythau a llysiau o ansawdd ragorol am bris rhesymol. Mae hefyd wedi helpu ei 10 gwirfoddolwr, sy'n credu eu bod wedi gallu dysgu sgiliau newydd a dod yn fwy hyderus tra'u bod yn gwneud rhywbeth sy'n helpu eraill. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i waith caled y gwirfoddolwyr pan gyflwynwyd Gwobr Prosiect Cymunedol "Gwneud Gwahaniaeth" Cymdeithas Dai Cymru a'r Gorllewin iddynt yn 2011.

# BUDDION CYMDEITHASOL

## Canolbwynt

**Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol wedi gweld eu bod bellach yn ganolbwynt i'r gymuned**

## Rhan allweddol

**Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chynnal yr iaith Gymraeg**

### Gwella iechyd a lles

Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol wedi'u sefydlu i ddarparu mathau arbennig o fwyd, yn enwedig ffrwythau a llysiau ffres nad yw siopau lleol yn gallu'u cyflenwi'n aml ac sy'n anodd iawn eu cario heb gar gan eu bod yn drwm. Gwelodd arfarniad Llywodraeth Cymru o'r rhaglen cydweithfeydd bwyd eu bod wedi llwyddo i annog pobl i fwyta'n iach ac mae pedwar o bob pump o gwsmeriaid cydweithfeydd bwyd yn cytuno eu bod yn bwyta rhagor o ffrwythau a llysiau ac yn prynu rhagor o gynnyrch lleol o'r herwydd.[3]

Mae rhai cydweithfeydd bwyd wedi'u sefydlu i gyflenwi bwydydd nad ydynt ar gael yn lleol, megis Cydweithfa Bwydydd Cyflawn Mawddach yn Nolgellau, sy'n prynu grawn mewn sypiau am brisiau cyfanwerthu i'w dosbarthu i'w haelodau.

Mae cydweithfeydd bwyd cymunedol eraill yn glynu wrth y model 'amaeth a gefnogir gan y gymuned', sy'n bartneriaeth rhwng y grŵp cymunedol a ffermwr. Y nod yw darparu cynnyrch lleol, yn ei dymor, gan gefnogi ffermwyr yn uniongyrchol a chynnwys pobl ym mywyd y fferm. Mae'r aelodau'n prynu cyfran lawn neu hanner cyfran yn y fenter gydweithredol a thrwy hynny gallant ddewis cynnyrch o'r cynhaeaf wythnosol. Yn debyg i gydweithfeydd bwyd eraill, mae'r rhain y fuddiol i bobl gan eu bod yn byw bywyd iachach drwy fwyta'n iach.





Mae gan Gymuned **Ffermio gyda Phobl Caerhys** 40 o aelodau sy'n ymweld â fferm organig Caerhys ger Tyddewi, Sir Benfro, i gasglu'u cyfran wythnosol o lysiau a pherlysiau tymhorol sy'n cael eu cynaeafu'n ffres. Gallant hefyd brynu nwyddau lleol eraill. Mae rhai ohonynt yn cael eu darparu gan ffermwyr cyfagos. Mae'r cynnyrch sy'n weddill yn cael ei werthu ar stondin farchnad sy'n golygu nad oes rhaid i bobl deithio i'r fferm ei hun.

### Cefnogi grwpiau cymunedol eraill

Nid er eu lles eu hunain yn unig mae mentrau cydweithredol cymunedol yn gweithredu. Mae nifer ohonynt yn ailgylchu'r elw maent yn ei gynhyrchu i gefnogi grwpiau a phrosiectau cymunedol eraill. Dywedodd sawl un arall eu bod wedi creu gweithgareddau cymunedol yn sgil eu gwaith.

Mae **Deudraeth Cyf** yn defnyddio incwm o'i weithgareddau masnachol i greu prosiectau lleol arian cyfatebol i ddod â buddsoddiad i'r gymuned.

Mae **Menter Gydweithredol Gymunedol Gwynfi** yn rhoi arian i grwpiau cymunedol lleol ac mae hefyd yn cefnogi'r ysgolion cynradd ac uwchradd lleol. Gofynnwyd iddynt helpu â chostau i'r ysgol gyfan gael mynd ar daith yn ddiweddar!

Prif ddiben **Menter Gydweithredol Tai Rhuddin** yw darparu tai fforddiadwy i'w aelodau, ond mae hefyd wedi sefydlu cynllun amaethyddol a gefnogir gan y gymuned yng Nghydweli, Sir Gaerfyrddin, sefydlwyd gardd i'r ysgol leol ei defnyddio ac agorwyd 22 erw o goetir i'r cyhoedd.

Mae 'ailgylchu'r' elw fel hyn er budd y gymuned yn ffordd hynod bwysig o ddatblygu asedau'r gymuned ac mae hyn yn debygol o ddod yn fwy pwysig wrth i gymorth grant i grwpiau cymunedol grebachu yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

[3] BMG Research (2012) op. cit.

## Datblygu Cydlyniant Cymunedol

Un o brif weithgareddau mentrau cydweithredol cymunedol yw cyfrannu i gydlyniant eu cymunedau. Mae pob menter gydweithredol gymunedol yn helpu i gryfhau ysbryd a hunaniaeth y gymuned gan eu bod yn dod â phobl ynghyd i weithio tuag at yr un nodau. Gan hynny, dylid ystyried mentrau cydweithredol cymunedol yn rhan annatod o ddatblygu a chynnal cymunedau ffyniannus yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru fel ei gilydd.

Mae **Pengwern Cymunedol Cyf** yn rhedeg tafarn (ac mae'n bwriadu ailagor y dafarn a'r gwesty yn fuan) yn Llan Ffestiniog, Gwynedd. Sefydlwyd y fenter yn 2012 a chodwyd £25,000 drwy roi cyfranddaliadau o £100 i bobl yn y gymuned. Gwnaeth y rhain, ar y cyd â grantiau, eu galluogi nhw i ddechrau rheoli tafarn y pentref. "Rydym wedi profi y gallwn lwyddo os daw'r gymuned ynghyd". Dywedant hefyd fod yr ysbryd cymunedol wedi gwella.

Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol wedi gweld eu bod bellach yn ganolbwynt i'r gymuned, weithiau drwy ddamwain ac weithiau'n hollol fwriadol. Maent yn darparu gwybodaeth am weithgareddau eraill sy'n digwydd yn yr ardal ac maent yn lle i bobl gael cwrdd.

Mae **Siop Bentref Pen-hŵ Cyf** yng Nghas-gwent yn gwerthu amrywiaeth o nwyddau ac maent wedi dweud eu bod yn 'ganolfan i hyrwyddo, hysbysebu a chefnogi gweithgareddau eraill yn y gymuned', yn ogystal â chynnal eu prif fusnes manwerthu'.

Mae mentrau cydweithredol cymunedol hefyd yn cryfhau ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng pobl ac maent yn cynnwys pobl a fyddai, fel arall, yn teimlo fel petaent wedi'u cau allan. Maent yn rhoi cyfeillgarwch i bobl a chyfle i gymdeithasu, yn enwedig i bobl hŷn, e.e. dywedodd pedwar o bob pump o wirfoddolwyr yn rhaglen cydweithfeydd bwyd cymunedol Llywodraeth Cymru eu bod wedi elwa o gwrdd â phobl newydd.[4]

Mae **Cydweithfa Fwyd Dyserth** yn darparu ffrwythau a llysiau ffres i'r gymuned o'i chwmpas ac mae wedi'i lleoli mewn eglwys yn Sir Ddinbych. Dywedodd staff eu bod wedi cael "ymateb cymdeithasol rhagorol i'r fenter gydweithredol. Gall pobl ddod i gwrdd ag eraill, cael sgwrs a phaned, yn enwedig pobl hŷn. Mae wedi cryfhau'r ymdeimlad o berthyn i gymuned."

Mae **Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy** yn sefydlu menter gydweithredol i brynu hen swyddfa'r post er mwyn creu caffi cymunedol, oriel gelf, canolfan gymunedol, ystafell gyfarfod a champfa fechan. Mae eisoes wedi codi ymwybyddiaeth ynglŷn â hunaniaeth eu cymuned ymhlith pobl, yn enwedig pobl hŷn, "a fydd bellach â rhywle y gallant fynd iddo a chwrdd â phobl eraill".

## Cefnogi Diwylliant Cymru

Yr hyn sy'n unigryw am fentrau cydweithredol cymunedol yw'r ffaith eu bod yn rhan annatod o'r diwylliant a'r gymdeithas leol gan mai'r bobl leol sy'n berchen arnynt ac sy'n eu rheoli. Nid ydynt yn dod i ardaloedd heb rybudd o gwbl ac nid ydynt yn atebol i rywun pell i ffwrdd. Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol wedi chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chynnal yr iaith Gymraeg, naill ai mewn ffordd amlwg neu ffordd lai amlwg, drwy weithredu'n ddwyieithog a chael gweithwyr a gwirfoddolwyr dwyieithog i'w helpu nhw.

Mae **Saith Seren** yn Wrecsam yn cyflogi pump o aelodau staff dwyieithog ac yn ogystal â gweithredu fel tafarn leol, mae hefyd yn Ganolfan Gymraeg. Mae'n cynnal gwersi Cymraeg ac mae'n trefnu o leiaf un digwyddiad y mis yn Gymraeg, gan roi llwyfan i berfformwyr megis Dafydd Iwan a Gwibdaith Hen Frân.

[4] BMG Research (2012) op. cit.




## Saith Seren, Wrecsam

**Sefydlwyd:** fel menter gydweithredol yn 2011 agorwyd y ganolfan yn 2012

**Busnes:** Tafarn gymunedol a chanolfan ddiwylliannol Gymraeg

**Nifer yr aelodau:** Dros 100

**Trosiant:** £200,000 yw'r darogan yn y flwyddyn gyntaf

Mae Canolfan Gymraeg Wrecsam yn fenter gydweithredol sydd newydd masnachu ac sy'n rhedeg tafarn gymunedol y Saith Seren, sy'n ganolfan Gymraeg. Maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau yn y dafarn, gan gynnwys adloniant byw a dosbarthiadau Cymraeg. Maent hefyd yn gweini bwyd a diod, yn llogi ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd i fudiadau cymunedol eu defnyddio. Mae eu gweithgareddau'n boblogaidd iawn ac mae'r tocynnau i nifer o'u digwyddiadau'n diflannu sydyn iawn!

Gall rhywun fod yn aelod o Ganolfan Gymraeg Wrecsam. Roedd gan ei haelodau rôl hollbwysig wrth godi'r arian angenrheidiol i sefydlu'r fenter gydweithredol. Prynodd Canolfan Gymraeg Wrecsam yr adeilad Fictoraidd rhestredig a oedd gynt yn gartref i dafarn y Seven Stars. Roedd wedi bod yn wag ers cryn amser. Gan ddefnyddio cyllid ei aelodau, gosododd y fenter gydweithredol gegin newydd sbon, ailaddurnwyd y lle, prynwyd stoc a phenodwyd staff ac agorodd ei drysau fel tafarn y Saith Seren ar ddechrau 2012.

Mae'r ystafelloedd lan llofft yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hailagor ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae Canolfan Gymraeg Wrecsam yn cyflogi pump o bobl, dri ohonynt amser llawn ac mae oddeutu 20 o bobl eraill yn gwirfoddoli hefyd.

Mae bod yn fenter gydweithredol wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant Canolfan Gymraeg Wrecsam. Daeth â phobl ynghyd a chrëwyd cyllid hollbwysig. Mae'n ffordd, meddai Cadeirydd y fenter gydweithredol, Marc Jones, o *"pobl gyffredin yn gwneud pethau anghyffredin".*


CWRW CYMRU
WXM
LAGER
PRIDE OF THE CELTS
SAITH SEREN
We aim to ensure our food is sourced locally whenever possible
Food served Mon - Thurs 11.30am - 3pm
Fri - Sat 11.30am - 7pm

# MANTAIS Y FENTER GYDWEITHREDOL

## Democrataidd

**Mae mentrau cydweithredol yn sefydliadau democrataidd sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau**

## Addysg a hyfforddiant

**Mae mentrau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant i aelodau, cynrychiolwyr etholedig, rheolwyr a gweithwyr**

Mae mentrau cydweithredol cymunedol yn perthyn i deulu o sefydliadau gwahanol sy'n darparu gwasanaethau gwerthfawr ac sy'n cefnogi cymunedau, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, elusennau, ymddiriedolaethau datblygu a sawl sefydliad anghorfforedig. Gall sefydliadau tebyg i'r rhain wneud gwaith da ac mae'n aml yn anodd eu gwahaniaethu nhw rhag y mentrau cydweithredol cymunedol. Yr unig beth yn aml sy'n gwneud mentrau cydweithredol yn unigryw yw'r ffaith eu bod yn glynu wrth y saith egwyddor gydweithredol. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i bopeth mae mentrau cydweithredol cymunedol yn ei wneud.

### Y SAITH EGWYDDOR GYDWEITHREDOL

**1. Aelodaeth Wirfoddol ac Agored**
Mae mentrau cydweithredol yn fudiadau gwirfoddol sy'n agored i bawb sy'n defnyddio'u gwasanaethau ac sy'n barod i dderbyn y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn aelod, heb wahaniaethu o ran rhyw, cefndir cymdeithasol, hil, daliadau gwleidyddol neu grefyddol.

**2. Rheolaeth Ddemocrataidd eu Haelodau**
Mae mentrau cydweithredol yn fudiadau democrataidd a reolir gan eu haelodau, h.y. y rhai sy'n prynu'r nwyddau neu sy'n defnyddio gwasanaethau'r fenter gydweithredol ac sy'n cymryd rhan lawn wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

**3. Cyfranogiad Economaidd yr Aelodau**
Mae'r aelodau'n cyfrannu'n gyfartal i gyfalaf y fenter gydweithredol ac maent yn ei reoli mewn ffordd ddemocrataidd. Mae'r budd mae'r aelodau'n ei gael yn gymesur â'r busnes maent yn ei gynnal â'r fenter gydweithredol, ac nid â'r cyfalaf a fuddsoddwyd.

**4. Ymreolaeth ac Annibyniaeth**
Mae mentrau cydweithredol yn fudiadau ymreolus, hunangymorth sy'n cael eu rheoli gan eu haelodau. Os yw'r fenter gydweithredol yn llunio cytundeb â mudiadau eraill, neu'n codi cyfalaf o ffynonellau allanol, mae'n gwneud hynny'n unol â'r telerau sy'n sicrhau bod yr aelodau'n rheoli hynny mewn ffordd ddemocrataidd ac yn cynnal ymreolaeth y fenter gydweithredol.

**5. Addysg, Hyfforddiant a Gwybodaeth**
Mae mentrau cydweithredol yn darparu addysg a hyfforddiant i'w haelodau, cynrychiolwyr etholedig a gweithwyr fel y gallant gyfrannu'n effeithiol i ddatblygiad eu menter gydweithredol. Mae'r aelodau hefyd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am natur a buddion mentrau cydweithredol.

**6. Cydweithio ymhlith Mentrau Cydweithredol**
Mae mentrau cydweithredol yn gwasanaethu'u haelodau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn cryfhau'r mudiad cydweithredol drwy weithio â'i gilydd drwy strwythurau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**7. Sicrhau Buddiannau'r Gymuned**
Wrth ganolbwyntio ar anghenion eu haelodau, mae cwmnïau cydweithredol yn gweithio er datblygiad cynaliadwy cymunedau drwy bolisïau a rhaglenni a dderbyniodd yr aelodau.

Mae **Dynamix** yn fenter gydweithredol y gweithwyr. Maent hefyd yn ystyried eu bod yn fenter gydweithredol gymunedol. Maent yn datblygu cyfranogiad pobl a sgiliau cydweithredu drwy greu hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori. Nod penodol Dynamix yw gweithredu ar werthoedd ac egwyddorion y sefydliad cydweithredol, a hynny yn y gwaith maent yn ei wneud a'r ffordd maent yn gweithredu.

Mae'r ddwy egwyddor bwysicaf o blith y saith yn ymwneud ag aelodaeth a rheolaeth ddemocrataidd. Yn wahanol i fenter gymdeithasol, sydd dan reolaeth a pherchnogaeth llond dyrnaid o bobl, yr aelodau sy'n rhedeg mentrau cydweithredol cymunedol ac maent yn atebol i'w haelodau. Mae'u strwythur yn golygu bod yn *rhaid iddynt* berthyn i'r gymuned gyfan – nid yw ymwneud â'r gymuned yn rhywbeth ychwanegol.

Wrth galon mentrau cydweithredol cymunedol mae'u haelodau. Mae gan bob menter gydweithredol, o bob math, aelodau ac yn achos mentrau cydweithredol cymunedol, daw eu haelodau o'r ardal leol. Ymhlith y mentrau cydweithredol a ymatebodd i'n harolwg, roedd nifer yr aelodau'n amrywio o 950 ym Menter Gydweithredol Pyllau Glyncorrwg i 20-30 yng Ngrŵp Adfywio Dinas Mawddwy, sy'n dal i ddatblygu fel sefydliad.

## Sicrhau cyfalaf

Esboniodd sawl menter gydweithredol gymunedol eu bod wedi sicrhau'r cyfalaf roedd ei angen arnynt er mwyn i'r fenter ddechrau drwy gael eu haelodau i brynu cyfranddaliadau yn y busnes. Heb gyfraniad yr aelodau, ni fyddai'r fenter gydweithredol wedi gallu cael gafael ar grantiau a benthyciadau ychwanegol i ddatblygu'u busnes.

Mae **Pengwern Cymunedol Cyf** oddeutu 160 o aelodau ac aeth pob un ohonynt ati i brynu o leiaf £100 o gyfran yn y busnes. Gall rhywun yn yr ardal fod yn aelod. Helpodd yr arian a godwyd drwy'r cyfranddaliadau Pengwern i brynu'r hen dafarn y mae bellach yn ei rhedeg





# MANTAIS Y FENTER GYDWEITHREDOL

## Dangos cefnogaeth

Mae bod yn aelod o fenter gydweithredol gymunedol yn ymrwymiad parhaus a dywedodd sawl menter gydweithredol gymunedol fod hyn wedi annog eu haelodau i gymryd rhan yn y sefydliad, naill ai fel gwirfoddolwyr neu fel defnyddwyr y gwasanaethau cydweithredol.

Mae gan **Siop Bentref Pen-hŵ Cyf** 295 o aelodau sy'n dod o'r ardal leol. Nid yw'n cyflogi neb ond mae'n gyfrifol am 50 o wirfoddolwyr. Cred y fenter gydweithredol fod yr *"aelodau'n fwy tebygol o fod yn wirfoddolwyr a chwsmeriaid hefyd"*.

Mae gan **Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy** 20 – 30 o aelodau a dywedodd fod yr aelodau'n fantais gan eu bod *""wirfoddolwyr gwych. Gallant gyfrannau ac mae'n eu helpu nhw i gymryd rhan fwy blaenllaw ym mywyd y gymuned."*

Oherwydd yr aelodau, mae gan y fenter gydweithredol ystod ehangach o sgiliau ac arbenigeddau y gallant eu defnyddio, yn sgiliau rheoli neu broffesiynol, neu'n wasanaethau y gellid eu cynnig i'r gymuned drwy'r fenter gydweithredol.

Sefydlwyd **Light Spirit UK**, o Sir Benfro, fel menter gydweithredol i hyrwyddo byw'n bositif a helpu pobl i gyflawni'u potensial, a hynny drwy ddysgu dulliau syml er mwyn iddynt ddod yn bobl gryfach a hapusach. Gall pobl broffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd holistig fod yn aelodau, megis y rhai sy'n gweithio fel therapyddion cyflenwol a'r rhai sy'n ymddiddori yng ngwaith Light Spirit ac sy'n rhannu ethos y fenter. Mae'r aelodau'n cael *"cyfleoedd i hyrwyddo a chynnig eu gwasanaethau a chymryd rhan yng ngwaith datblygu a chynnal ystod ddiddorol o brosiectau."*

## Cymryd rhan, Atebolrwydd a Thryloywder

Gan mai'r aelodau sy'n rheoli'r sefydliad, roedd nifer o fentrau cydweithredol cymunedol o'r farn bod cyfraniad eu haelodau tuag at waith y sefydliad gymaint yn fwy nag y byddai mewn sefydliadau eraill.

Dywedodd **Saith Seren**, tafarn a Chanolfan Ddiwylliannol Gymraeg yn Wrecsam, fod eu haelodau, 90 ohonynt, yn credu bod ganddynt *"gwell perchnogaeth dros bethau a'u bod yn cymryd mwy o ran ym mywyd y gymuned"* nag y byddent fel arall.

**Dywedodd Cydweithfa Fwyd Dyserth** yn Sir Ddinbych bod cael aelodau'n hynod fanteisiol mewn sawl ystyr. *"Gallant gynllunio ac maent yn teimlo eu bod wedi ymrwymo i rywbeth. Mae'n gwneud iddynt gredu eu bod yn rhan o gymuned ac mae hyn, yn ei dro, yn helpu i gael pobl yn ôl drwy'n drysau'n rheolaidd."*

Yn dilyn hyn, pwysleisiodd bron i bob menter gydweithredol ei bod yn bwysig eu bod yn atebol i'w haelodau, a hynny mewn ffordd ffurfiol yn eu Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, sy'n ethol y bwrdd ac yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad, ac yn anffurfiol drwy gyswllt o ddydd i ddydd.

Daeth pobl yn aelodau o **Fenter Gydweithredol Gymunedol Gwynfi** am y tro cyntaf yn y 1980au pan werthwyd cyfranddaliadau £5 yn y sefydliad i godi arian i'w sefydlu. Er eu bod yn dweud ei bod yn anodd cael eu haelodau i ddod i'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol, dywedon nhw serch hynny fod y *"fenter gydweithredol yn atebol i'r aelodau"*, mewn ffordd anffurfiol ar y cyfan.

Dywedodd **Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy** fod *"mabwysiadu'r egwyddorion [cydweithredol] yn gwneud y fenter gydweithredol yn fwy tryloyw. Rydym yn ceisio gwneud ein gorau glas dros y gymuned ac rydym am sicrhau bod yr holl drigolion ar ein hochr ni. Y nod yw rhannu'r llwyddiannau a'r methiannau"*.

# GALLWCH CHI'I WNEUD E HEFYD!

Mae cannoedd o bobl eisoes wedi sefydlu mentrau cydweithredol cymunedol yng Nghymru ac mae'n bosib creu llawer rhagor ohonynt.

Mae pob menter gydweithredol a phob cymuned yn wahanol, ond mae rhai rheolau aur sy'n berthnasol iddynt i gyd.

## CAM 1
### GRŴP O BOBL

Mae pobl yn hollbwysig wrth sefydlu menter gydweithredol gymunedol – ni all un neu ddau'i wneud e ar eu pen eu hunain.

Rhaid eich bod yn awyddus i fynd â'ch cymuned **i le gwell** a rhaid ichi gael llawer o **egni a brwdfrydedd!**

## CAM 2
### SYNIAD BUSNES

Pa wasanaethau y bydd y fenter gydweithredol gymunedol yn eu darparu?

Gallai fod yn rhywbeth mae'i angen ar y gymuned, megis siop neu gaffi, neu gallai fod yn gyfle, megis atynfa i dwristiaid neu ynni adnewyddadwy.

Mae'r rhan fwyaf o fentrau cydweithredol cymunedol yn canolbwyntio ar **un** syniad ar y dechrau, er y gallan nhw hefyd ehangu!

Busnes yw menter gydweithredol, felly ystyriwch y pethau hyn:

+ Faint y bydd pobl yn ei dalu am y gwasanaeth?
+ Ar faint o bobl y bydd eisiau'r gwasanaeth?
+ Faint fydd yn ei gostio i'w ddarparu?

Gallai rhai grantiau fod ar gael er mwyn ichi ddechrau ar bethau ond yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yn rhaid i'r fenter gydweithredol fod yn gallu'i ariannu'i hun.

## CAM 3
### CEFNOGAETH Y GYMUNED EHANGACH

A oes cefnogaeth oddi wrth bobl yn y gymuned?

Bydd yn rhaid iddynt gyfrannau'u sgiliau a'u hamser i helpu'r fenter gydweithredol i gael dechrau da ac i barhau i weithredu yn y dyfodol. Efallai y bydd yn rhaid iddynt roi peth arian tuag at y fenter hefyd.

Mae rhai'n cynnal cyfarfod cyhoeddus neu arolwg cymunedol i weld faint o gefnogaeth sydd i'w menter.

Mae cynnal brwdfrydedd eich aelodau hefyd yn bwysig. Mae nifer o fentrau cydweithredol cymunedol yn dweud ei bod yn anodd cynnal y diddordeb ar ôl iddynt ddechrau. Mae'r fenter gydweithredol 'yn diflannu i'r cefndir'.

## CAM 4
### CAEL CYNGOR

Ar ôl ichi gael grŵp o bobl frwdfrydig ynghyd, taro ar syniad da ynglŷn â'r hyn yr hoffech ei wneud ac ennyn diddordeb pobl o'r gymuned ehangach, mae'n bryd cael help!

Ceir nifer o sefydliadau sy'n rhoi cymorth i fentrau cydweithredol ac mae sefydliadau eraill ar gael sy'n helpu mentrau cymdeithasol neu fusnesau cyffredin. Weithiau, gallai busnesau sy'n debyg i'ch un chi helpu hefyd.

Dylai'r rhai sy'n eich helpu chi eich tywys chi drwy'r camau nesaf.

Os oes angen unrhyw help arnoch i ddechrau menter gydweithredol gymunedol, cysylltwch â Chanolfan Gydweithredol Cymru:

**Ffôn: 0300 111 5050**
**E-bost: info@walescooperative.org**
**Gwefan: www.walescooperative.org**

**"Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y pentref toc cyn i dafarn olaf y pentref gau. Teimlai pobl yn gryf y gallai'r gymuned gydweithio i brynu'r dafarn a'i rhedeg. Ein her fwyaf oedd cynnal brwdfrydedd pawb a sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn parhau i ddod i'n helpu ni."**
Menter Gydweithredol Cymuned Pengwern

**"Mae cael cefnogaeth grwpiau eraill sy'n cynnal gweithgareddau tebyg wedi bod yn hynod werthfawr gan eu bod nhw'n aml wedi delio a'r un heriau ac maent yn deall y broses yn llawer gwella na'r rhan fwyaf o gyrff cyllido."**
Menter Gydweithredol Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian

# GALLWCH CHI'I WNEUD E HEFYD!

**Canolfan Gydweithredol Cymru fu'n gymorth inni'n fwy na neb. Mae Ecodyfi, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Gwynedd hefyd wedi chwarae rhan flaenllaw ar hyd y blynyddoedd. Rhoddodd y Parc Cenedlaethol gymorth ariannol hefyd.**
Grŵp Adfywio Dinas Mawddwy

**Llif arian [yw'r her fwyaf] – ar ôl chwe mis o fasnachu, rydym wedi sylweddoli bod ein trethi'n uchel a'n biliau'n ddrud.**
Menter Gydweithredol Gymunedol Saith Seren

## CAM 5
### PENDERFYNU AR EICH STATWS CYFREITHIOL

Bydd angen help arnoch i benderfynu ar y math gorau o sefydliad, e.e. cymdeithas ddiwylliannol a darbodus, cwmni a gyfyngir gan warant neu gwmni buddiannau cymunedol.

Yn ogystal â hynny, mae'n debygol iawn y bydd angen help arnoch â'r gwahanol ffurflenni y bydd yn rhaid eu llenwi er mwyn cofrestru'ch sefydliad.

## CAM 6
### PARATOI CYNNLUN BUSNES

Mae Creu Cynllun Busnes realistig yn hollbwysig. Os nad yw'r sefydliad yn hyfyw fel busnes, ni fydd yn goroesi.

Bydd yn rhaid ichi wybod:

+ **Pwy sy'n debygol o fod eisiau defnyddio'ch gwasanaeth?** Faint y byddent yn ei dalu? Pa mor aml y byddent yn talu amdano? Faint o bobl fyddai'n talu? Sut y byddant yn dod i wybod amdano? Sut y byddant yn cael y gwasanaeth, e.e. ar-lein, mewn un ganolfan neu mewn sawl canolfan?
+ **Beth mae'i angen arnoch i ddarparu'r gwasanaeth?** Pa adeilad fydd ei angen arnoch? Pa gyfarpar a chyflenwadau y bydd eu hangen arnoch? Faint o weithwyr neu wirfoddolwyr y bydd eu hangen arnoch, a pha hyfforddiant y bydd ei angen arnynt?
+ **Faint fydd yn ei gostio?** Faint y bydd yn ei gostio i gofrestru'r sefydliad? Beth am ffioedd cyfrifydd, yswiriant, ynni, cyfrifiaduron, ffonau a chyfarpar swyddfa? Faint y bydd y gweithwyr yn ei gostio – peidiwch ag anghofio pensiynau, hyfforddiant ac Yswiriant Gwladol?

Mae'n bwysig eich bod yn realistig ynglŷn â'ch cynllun busnes! Peidiwch â rhoi pris rhy uchel ar eich gwasanaeth a byddwch yn realistig ynglŷn â'r galw fydd amdano. Byddwch yn realistig ynglŷn â'ch costau hefyd.

Mae gwasgfeydd economaidd yn effeithio ar fentrau cydweithredol cymunedol hefyd. Felly, os nad yw'ch pentref wedi llwyddo i gynnal siop bentref neu dafarn dan berchnogaeth breifat, sut y bydd siop neu dafarn dan berchnogaeth menter gydweithredol yn goroesi?

Fel rheol, mae mentrau cydweithredol cymunedol yn perfformio'n well na busnesau eraill a dim ond ychydig iawn ohonynt sydd wedi methu fel busnesau. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd ehangach yn effeithio arnynt a dywedodd rhai mentrau cydweithredol yng Nghymru bod y dirwasgiad yn effeithio arnynt. Rhaid ichi ddeall sut y byddwch yn ymdopi ag amodau sy'n newid, boed hynny oherwydd bod archfarchnad newydd wedi agor gerllaw neu anawsterau wrth symud i safle newydd.

## CAM 7
### CODI ARIAN

Bydd angen arian arnoch i ddechrau ar eich busnes. Mae sawl ffynhonnell gyllido ar gael a allai eich helpu chi:

+ Gwerthu cyfranddaliadau i aelodau'r gymuned
+ Grantiau dechrau busnes
+ Benthyciadau cymdeithasol dechrau busnes